

CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
20 Ebrill 2022
AM 7.30 TRWY ZOOM

YN BRESENNOL: Cyng I Roberts, P Roberts, R G Parry, G Parry, S Jones, E Huws, E Law Shui Nicholson, G Owen (Clerc),	
YMDDIHEURIADAU: Cyng J Earnshaw, D Rees (Cyngor Sir), N Roberts (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts.
2	DATGAN DIDDORDEB – Dim
3	DERBYN COFNODION Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 09.03.22. Cyng P Roberts yn cynnig a Cyng G Parry yn eilio.
4	MATERION YN CODI O'R COFNODION
4.1	Lon y Fynwent – Mae'r Clerc wedi gofyn I R G Hire symud ymlaen gyda'r gwaith am £4170 + TAW
4.2	Grant ar gyfer y maes Chwarae – mewn llaw
4.3	Parcio Bro Mynydd – ymateb y Cyngor Sir: Diolch am gysylltu a'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol i'n hysbsu o anhawsterau parcio yn Bro Mynydd. Rydym wedi trafod y sefyllfa gyda'r darparwr gofal ac wedi gofyn iddynt weithredu i geisio lliniaru y problem. Rydym yn gwerthfawrogi bod y gymuned leol wedi bod yn hynod groesawgar, ac ni fyddwn yn dymuno i'r anhawsterau parcio greu unrhyw aniddigedd gyda chymdogion. Rydym wedi yn gofyn i'r darparwr arolygu'r sefyllfa ac adnabod ffyrdd i oresgyn y broblem yn yr hir dymor. Rwyf yn gobeithio y bydd y camau arfaethedig o gymorth i leihau'r anhawsterau diweddar. Mawr ddiolch am ddwyn y mater i'n sylw rydym yn awyddus i sicrhau bod trefniant yn llwyddiannus.
4.4	Dathlu y Jiwibili - Bydd y Cyng E Huws yn siarad â'r lorwerth ynglŷn â the prynhawn. Cytunwyd i gyfrannu £100 am de prynhawn. Bydd y Cyngorydd P Roberts yn parhau gyda'i chynnig o cup cakes a bydd y Clerc yn gwneud trefniadau gyda'r brifathrawes i gytuno dyddiad ac amser dosbarthu hufen iâ. Cytunwyd y gallai'r Clerc wario hyd at £150 ar hufen iâ
	Llofnod.....Cadeirydd 11.05.22

4.5	Raffle – Trafod yn y cyfarfod nesaf
5	ADRODDIAD y CADEIRYDD – Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu gwaith dros y flwyddyn, hefyd y Cyng Bob Parry a oedd yn mynychu ei gyfarfod diwethaf fel Cynghorydd Sir
6	GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON
	Cynllunio
6.1	RM/2022/3 Lon ty Hen, Bryngwran – dim sylwadau
	Gwasanaethau Cymdeithasol
6.2	Problemau parcio – gweler 4.3
	Priffyrdd
6.3	Llwybr 16/012/01 - Dywedodd y Clerc fod Neville Evans wedi codi problem ynglyn a’r llwybr yma. Mae angen gosod pont newydd ar draws y llwybr. Mae’r Clerc wedi codi’r mater gyda’r Cyngor Sir ac fe fyddan nhw’n gosod bont Newydd.
7	GOHEBIAETH YCHWANEGOL
7.1	Parc Solar - Cytunwyd i wahodd swyddogion i gyfarfod mis Gorffennaf a gofyn i Unllais Cymru am gyngor ynghylch y cyllid
7.2	Cylch yr Iaith - Cytunwyd i gefnogi eu llythyr at Lywodraeth Cymru i barhau i ddefnyddio enwau lleoedd Cymraeg
7.3	Archwilio - Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno i archwilio'r cyfrifon am yr un pris â'r llynedd. Cytunwyd i dderbyn eu cynnig
7.4	Unllais Cymru - Mae’r Clerc wedi derbyn hysbysiad gan Unllais Cymru yn dweud bod disgwyl i Glercod gyhoeddi adroddiad blynyddol o weithgareddau’r cyngor yn dechrau o 2021-2022. Disgwylir i glercod hefyd sefydlu cynllun hyfforddi blynyddol ar gyfer pob aelod
8	MATERION ERAILL
8.1	Gor-yrru Bryngwran - Cytunwyd i wahodd yr Heddlu i gyfarfod mis Mehefin
8.2	Baw cwn - Oherwydd problemau parhaus gyda gwastraff cwn, cytunwyd i ofyn i’r Cyngor Sir am fin yn Lôn Tŷ Hen a dosbarthwyr bagiau cwn yn Lôn Tŷ Hen, Hebron, Lôn Penrallt a Stryd Fawr, Bryngwran.
	Llofnod.....Cadeirydd 11.05.22

9	MATERION ARIANNOL
9.1	Cytunwyd I dalu aelodaeth Unllais Cymru £149.00 am y flwyddyn 2022-2023
10	MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF
10.1	Bin y fynwent
10.2	Tap mynwent Salem
	Llofnod.....Cadeirydd 11.05.22